Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 18 Medi 2019

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 MEDI 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 (copi ynghlwm).

**5 DOGFEN UWCH GYNLLUN A GWELEDIGAETH CANOL TREF Y RHYL** (Tudalennau 15 - 118)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi ynghlwm) yn cyflwyno fersiwn derfynol dogfen weledigaeth Canol Tref Y Rhyl a'r dull arfaethedig i gyflawni'r gwaith llywodraethu a darparu adnoddau.

**6 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN – CYFANSODDIAD Y BWRDD LLYWODRAETHU STRATEGOL** (Tudalennau 119 - 140)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet o gyfansoddiad y Bwrdd Llywodraethu Strategol i fonitro a rheoli'r berthynas rhwng y Cyngor a Denbighshire Leisure Limited (y Cwmni).

**7 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN – CYFANSODDIAD Y BWRDD CYFARWYDDWYR** (Tudalennau 141 - 164)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn am argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor ynghylch cyfansoddiad a phenodi Bwrdd Cyfarwyddwyr Denbighshire Leisure Limited (y Cwmni).

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19** (Tudalennau 165 - 190)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad y Cyngor â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2018/19.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 191 - 232)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 233 - 236)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 ESTYNIAD I GYTUNDEB GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU**
(Tudalennau 237 - 248)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y Cytundeb Gwasanaeth a Reolir ar gyfer darparu Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned